Helo a Blwyddyn Newydd Dda gan bawb ohonom yn y DBS.

Mae'n edrych yn debyg y bydd ein hail flwyddyn lawn mor brysur â'r gyntaf a dechreuwn gyda'r newyddion y bydd yn rhaid i ni atal rhai o'n gwasanaethau datgelu am ychydig ddyddiau tua chanol Mawrth, wrth i ni wneud newidiadau mewnol i'n TG a seilwaith. Ond peidiwch â phoeni, byddwch yn dal i allu gwneud cais am wiriadau cofnodion troseddol yn ystod y cyfnod hwn.

Mae hon yn broses angenrheidiol er mwyn i ni allu parhau i foderneiddio ein gwasanaethau, ac rydym am ofyn i chi fod yn amyneddgar gyda ni ar gyfer yr ychydig ddyddiau o amhariad posibl. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn ein herthygl 'Argaeledd y gwasanaeth datgeliad'.

Chi'n sy'n cael gwybod gyntaf am y newyddion diweddaraf am eich bod wedi tanysgrifio i dderbyn Newyddion Datgeliad y DBS, ond mae'n bwysig sicrhau fod eich holl fanylion cyswllt yn gyfredol er mwyn i ni allu cysylltu â chi yn fuan os oes angen. Cymrwch amser i ddarllen ein herthygl *'Helpwch ni i'ch hysbysu'* a dilyn y cyfarwyddiadau i ddiweddaru eich manylion os yn briodol.

Fel arfer, hoffem eich atgoffa pa mor bwysig ydi hi i ni gael eich adborth, felly sicrhewch eich bod yn dal i'w anfon at feedback@dbs.gsi.gov.uk

**Sue Quigley**
**Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgeliad)**

---

## Argaeledd y gwasanaeth datgeliad

Ein datganiad cenhadaeth yw:

***Ein nod yw bod yn ddarparwr effeithlon ac y gellir ymddiried ynddo o wasanaethau gwybodaeth i gefnogi penderfyniadau cyflogaeth diogel.'***

Rydym yn dechrau 2014 o sefyllfa gref, gyda lefelau boddhad cwsmeriaid rhagorol a lefelau da o berfformiad, ond gwyddom ein bod angen llwyfan gwasanaeth TG mwy modern a hyblyg, y gallwn fanteisio arno, gan drawsnewid ein gwasanaeth cyfredol a chynnig gwasanaethau newydd.

Yng nghanol Mawrth 2014, byddwn yn dechrau'r daith hon wrth i ni wneud rhai newidiadau i'n system TG presennol, ac yn croesawu ein partner cyflawni gwasanaeth newydd, Tata Consultancy Services (TCS). I gwblhau'r cam cyntaf, bydd angen i ni atal rhai o'n gwasanaethau datgelu am ychydig ddyddiau.

Ond peidiwch â phoeni, byddwch yn dal i allu anfon ceisiadau papur ac e-swmp. Fodd bynnag, efallai y bydd ceisiadau yn cymryd rhai dyddiau'n ychwanegol i ymddangos ar ein gwasanaeth Olrhain.

Yn ystod y cyfnod hwn, ni fydd rhai o'n gwasanaethau datgelu ar gael, gan gynnwys y Gwasanaeth Diweddaru, Olrhain Ar-lein a gwasanaethau Oedolion yn Gyntaf. Bydd ein canolfan alwadau a thimau Gwasanaethau Cwsmeriaid hefyd yn gallu ateb ymholiadau cyffredinol yn unig, oherwydd na fydd gennym fynediad at ein system ddatgelu ac felly ni fyddwn yn gallu trafod achosion unigol.

Ymddiheurwn am unrhyw amhariad ac anghyfleustra y bydd hyn yn achosi, ond roeddem yn awyddus i roi digon o rybudd i chi. Yn y rhifyn nesaf, byddwn yn gallu rhoi gwybod i chi ar ba ddyddiadau ym Mawrth fydd hyn yn digwydd, er mwyn i chi allu paratoi i leihau unrhyw amhariad ar eich busnes.

Dyma'r holl wybodaeth sydd gennym ar eich cyfer ar hyn o bryd. Cyn gynted ag y gallwn ddweud mwy, a chadarnhau'r dyddiau a effeithir, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

Diolch i chi am eich dealltwriaeth, a chadwch lygad am ragor o wybodaeth yn y rhifyn nesaf.

---

## Rydym angen eich manylion

Yn rhifyn Awst, *(A yw'ch manylion cofrestru wedi newid?)* fe bwysleisiom bwysigrwydd cadw'ch manylion cyswllt yn gyfredol. Diolch i bawb ohonoch sydd wedi cysylltu gyda newidiadau ers i chi gofrestru.

Yn anffodus, rydym yn dal i gael trafferth cyrraedd rhai ohonoch, felly byddwn yn cysylltu â phrif lofnodwyr yn fuan i gadarnhau'ch manylion. Byddwn hefyd yn gofyn i chi ynglŷn â'r manylion cyswllt ar gyfer eich cydlofnodwyr er mwyn sicrhau eu bod yn gywir, a hefyd yn gofyn am y rhai nad ydynt wedi bod yn cydlofnodi unrhyw geisiadau yn ddiweddar, er mwyn i ni allu eu dileu o'n cofnodion os yn briodol.

Bydd darparu'r manylion sydd eu hangen arnom o fewn yr amserau gofynnol yn helpu gwella'n cyfathrebu gyda chi.

Os ydych chi eisoes yn gwybod fod angen diweddaru ac/neu ddileu manylion o'n system, rhowch wybod i ni trwy lythyr ar bapur pennawd eich cwmni, gan ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- Rhif Corff Cofrestredig.
- Rhif a llofnod eich (prif) cydlofnodydd.
- Manylion y newid neu newidiadau, megis enw/cyfeiriad blaenorol a newydd y Corff Cofrestredig, y dyddiad pan fydd y newid yn effeithiol, ac enw a rhif cofrestru'r cydlofnodwyr a effeithir.

Os nad yw hyn yn bosibl, gallwn dderbyn llythyr gan gyfarwyddwr neu weithiwr cyfatebol. Dylid ei anfon at:

Tîm Cofrestriadau DBS
Blwch Post 110
Lerpwl
L69 3EF

Am ragor o wybodaeth, cymrwch olwg ar yr adran 'newid eich manylion cofrestru' ar ein gwefan

---

## Derbyn y neges

Mae’ch perthynas gydag ymgeiswyr yn allweddol i godi ymwybyddiaeth o’n gwasanaethau ac i’w helpu i ddeall manteision y rhain. Rydym hefyd yn rhannu’ch barn y gallem wneud mwy i’ch helpu chi a’ch ymgeiswyr i wneud hyn trwy ddatblygu dull uniongyrchol o gyfathrebu ag ymgeiswyr.

Wrth i ni ystyried sut allwn ni hybu ein gwasanaeth a bodloni anghenion cynyddol newidiol ein cwsmeriaid, rydym yn ystyrlon o’n statws hunan ariannu. Mae’n bwysig ein bod yn osgoi trosglwyddo costau atodol i’n cwsmeriaid. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn parhau i’ch cynnwys chi a’ch ymgeiswyr mewn llunio a gwella ein gwasanaethau.

Yn fuan, byddwn yn rhoi taflenni yn y ffurflen gais i roi gwybod i ymgeiswyr yn uniongyrchol ynglŷn â’r Gwasanaeth Diweddaru a’r offeryn Tracio Ar-lein. Gobeithiwn y bydd hyn yn cyd-fynd â’r gwaith da yr ydych eisoes yn ei wneud i annog ymgeiswyr i ystyried y gwasanaeth.

Mae croeso i chi wneud eich copïau’ch hun o’r daflen a’u rhoi i unrhyw un y credwch sydd angen cael gwybod am y Gwasanaeth Diweddaru. Rydym hefyd wedi ei rhoi ar y wefan i chi ei lawrlwytho yn ôl y galw.

Rydym yn croesawu eich awgrymiadau a byddwn yn dal i wneud popeth y gallwn i wella’ch profiad wrth ddefnyddio’n gwasanaethau. Anfonwch e-bost at feedback@dbs.gsi.gov.uk os oes gennych unrhyw adborth.

---

## Newidiadau i sieciau

Er i’r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) a’r ISA uno yn Rhagfyr 2012, rydym wedi sylwi fod rhai sieciau yn dal yn cael eu gwneud yn daladwy i’r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB). Mae’r rhain wedi eu derbyn, fodd bynnag bydd unrhyw sieciau wedi eu cyfeirio at unrhyw dalai heblaw’r ‘Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd’ neu’r ‘DBS’ a dderbynnir wedi 6 Mawrth 2014 yn cael eu gwrthod a’u dychwelyd.

O fis Mawrth 2014, byddwn hefyd yn newid ein trefniadau bancio, gan gynnwys newid cyfrif banc.  Byddwn yn rhoi gwybod mwy i chi am hyn yn nes at yr amser, ond ni fydd cyrff cofrestredig sy’n talu trwy ddebyd uniongyrchol wedi eu heffeithio, heblaw am newid bychan yn sut mae casgliad y debyd uniongyrchol yn ymddangos ar eich datganiad banc.

Sicrhewch fod eich adrannau Cyllid yn cael gwybod am y newidiadau hyn mewn da bryd.